**Y Pwyllgor Deddfau**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 21 Mawrth 2006 |
| **Amser:** | 9.30 am |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd |
| **Teitl:** | Craffu ar Ddeddfwriaeth yn y Cynulliad |

**Craffu ar Ddeddfwriaeth yn dilyn Etholiadau 2007 i'r Cynulliad Cenedlaethol**

Mae'r Pwyllgor Deddfau wedi penderfynu gwneud adolygiad byr o'r trefniadau ar gyfer craffu technegol ar ddeddfwriaeth ar ôl i Fesur Llywodraeth Cymru ddod i rym. Mae'n gobeithio trafod y dystiolaeth i gyd erbyn toriad y Pasg er mwyn paratoi adroddiad drafft yn ystod y toriad fel bod y Pwyllgor yn gallu'i drafod ar ôl dychwelyd.

Cytunwyd y cylch gorchwyl a ganlyn –

*"Ystyried*
*(a) pa graffu gan y Cynulliad Cenedlaethol fyddai'n briodol ar gyfer y gwahanol fathau o ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Cynulliad Cenedlaethol ar ôl i rannau perthnasol Mesur Llywodraeth Cymru ddod i rym;*
*(b) pa graffu gan y Cynulliad Cenedlaethol fyddai'n briodol ar gyfer deddfwriaeth arfaethedig San Steffan ac Ewrop sy'n berthnasol i Gymru ar ôl y dyddiad hwnnw; a*
*(c) pha swyddogaeth allai fod gan bwyllgor deddfwriaeth neilltuedig wrth gyflawni craffu o'r fath*
*a gwneud argymhellion"*

**Y Pwyllgor Deddfau**
**14 Chwefror 2006**